Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanllechid
**Llanllechid**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Llanllechid ar gyrion pentref Rachub ger tref Bethesda. Daw o dan ofal awdurdod lleol Gwynedd. Mae 261 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 31 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae’r disgyblion wedi eu rhannu rhwng naw dosbarth. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Daw llawer o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 11% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol wedi adnabod 17% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd yn Ionawr 1997 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanllechid yn 2015-2016 yw £3,502. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Gynradd Llanllechid yn safle 84 o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn llwyddiannus
- ymddygiad bron pob disgybl yn dda
- aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor 'Ysgol Werdd' yn cyfrannu'n effeithiol iawn at fywyd yr ysgol
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus
- yr athrawon yn darparu profiadau dysgu dychmygus sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus
- ganddi drefniadau effeithiol ar gyfer gofal a lles disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- y corff llywodraethwyr yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o farn rhanddeiliaid wrth lunio'r adroddiad hunanarfarnu
- y cynllun datblygu yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau
- partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref, sy'n sicrhau bod rhieni yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant
- partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol sy'n hyrwyddo gofal a lles disgyblion yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu creadigol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol tua hanner y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan ddatblygu eu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn llwyddiannus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn sgwrsio a thrafod gyda'u cyfoedion ac oedolion yn hyderus ac yn fedrus iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn ddeallus ac yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau athrawon yn y ddwy iaith. Maent yn cyfrannu'n dda i drafodaethau, gan fynegi barn yn glir a chydag ystod eang o eirfa briodol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gywir ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus gan ddarllen gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn trafod eu hoff storïau yn frwdfrydig ac yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o lyfrau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn darllen yn ddeallus a chyda rhuglder gynyddol, gan drafod cynnwys a mynegi barn yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi gwaith dosbarth, er enghraifft, ymchwilio i effaith llygredd yr afon Ganga ar boblogaeth India.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gyda'r mwyafrif o eiriau cyffredin wedi eu sillafu'n gywir a chydag atalnodi pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith i ysgrifennu darnau estynedig ar draws y cwricwlwm. Maent yn atalnodi'n gywir ac yn defnyddio ansoddeiriau ac idiomau amrywiol i gyfoethogi'r gwaith. Defnyddiant ystod eang o eirfa briodol i gyd-fynd â'r themâu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Maent yn dechrau amrywio brawddegau ac yn addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o eirfa'n llwyddiannus i gyfoethogi'u gwaith gan gynnwys ansoddeiriau, idiomau a chymariaethau, er enghraifft ysgrifennu cyfweliad gyda faciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, cyfyng yw'r dystiolaeth bod disgyblion yn ysgrifennu digon yn greadigol.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol. Mae mathemateg pen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn defnyddio unedau safonol i fesur a chynnal tasgau ar gynhwysedd gyda chywirdeb ac mae llawer yn gallu defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol, er enghraifft, creu graffiau bloc, cylch a llinell i ddangos data fel hoff flodau'r dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau rhif yn llwyddiannus. Maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol wrth ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, gallant ddefnyddio medrau rhif yn llwyddiannus i gynllunio brecwast Cymreig i ymwelwyr o Awstralia.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg mewn datblygiad llythrennedd wedi gwella dros gyfnod o bedair blynedd. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod.

Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi gosod yr ysgol yn gyffredinol yn y 25% uchaf mewn datblygiad llythrennedd a mathemateg dros y tair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yn y Gymraeg a'r Saesneg dros y tair blynedd ddiwethaf. Mewn gwyddoniaeth a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella ac yn gyffredinol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros yr un cyfnod.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) ymhob un o'r pynciau wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg.
Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion yn y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y ddau grŵp hwn yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, yn gyffredinol, mae'r merched yn perfformio'n uwch na'r bechgyn ar y lefelau disgwyliedig ac uwch. Mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad y bechgyn a merched ar y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar y lefelau uwch.

## Lles: Rhagorol

Mae cyfraniad aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor 'Ysgol Werdd' at fywyd a gwaith yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae ganddynt rôl weithredol sy'n cael effaith arbennig ar yr

hyn sy'n digwydd yno. Mae'r disgyblion yn ymateb yn hyderus iawn i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu a gwneud penderfyniadau. Mae ganddynt rôl allweddol ym mhrosesau hunanarfanu'r ysgol ac maent yn paratoi cyflwyniadau pwrpasol i'r llywodraethwyr ar y ddarpariaeth. Mae aelodau'r cyngor ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda staff, rhieni, eu cyfoedion a'r gymuned leol er mwyn canfod eu barn ac i drafod syniadau ar gyfer meysydd i'w gwella. Er enghraifft, bu aelodau'r cyngor yn weithredol iawn wrth ymgymryd ag ymgyrch lwyddiannus i wella arferion darllen eu cyd-ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad da iawn tuag at eu dysgu. Mae bron pob un yn dangos balchder tuag at eu gwaith, gan gydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion yn y gwersi. Mae gallu rhan fwyaf y disgyblion i weithio'n annibynnol ac i wneud dewisiadau drostynt eu hunain yn nodweddion cryf. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae llais y disgybl yn ganolog i'r holl brofiadau dysgu ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn dda ac yn gyson uwch na'r cyfartaledd ac ar brydiau ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae bron pob un yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Gwna hyn gyfraniad sylweddol at greu ethos cadarnhaol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Maent yn ymgymryd â gwahanol weithgareddau corfforol yn rheolaidd, sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles. Er enghraifft, mae bron pob disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhedeg am bum munud yn ddyddiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion, gan hybu eu hannibyniaeth a datblygu eu medrau meddwl. Mae'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau amrywiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu i ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol ar gyfer cyflwyno rhan fwyaf o egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar draws ystod o themâu diddorol yn y ddau gyfnod allweddol. Mae disgyblion yn derbyn profiadau buddiol iawn ar gyfer datblygu eu medrau ysgrifennu mewn ystod o ffyrdd ac at wahanol gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu'n greadigol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr ac effeithiol. Mae’r arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn hyrwyddo’r iaith ac ymwybyddiaeth disgyblion o’u diwylliant fel cenedl yn dda. Mae cyfleoedd helaeth i’r disgyblion ymweld ag atyniadau a safleoedd pwysig sy’n gysylltiedig â hanes yr ardal. Mae’r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes Cymru mewn amrywiol ffyrdd fel, er enghraifft, rhoi cyfle iddynt wylio dramâu gan berfformwyr Cymreig yn seiliedig ar chwedlau Cymreig. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn ymfalchïo yn eu diwylliant Cymreig.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn gynhwysfawr. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau gwahanol ac ehangu eu gwybodaeth am rannau eraill o'r byd, trwy gysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd tramor. Mae’r ysgol wedi sefydlu perthynas gref gyda nifer o ysgolion mewn gwledydd tramor gan groesawu ymwelwyr yn rheolaidd. Mae athrawon yn cynllunio’n fwriadus i sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyfleoedd effeithiol i ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’r byd ehangach. Er enghraifft, mae athrawon a disgyblion yn cysylltu’n rheolaidd ag ysgol yn India er mwyn rhannu gwybodaeth am eu hardal, credoau, diwylliant a bywyd pob dydd sy’n cefnogi eu dysgu’n effeithiol iawn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o faterion sy’n ymwneud â datblygiad cynaliadwy yn dda. Mae gwaith y pwyllgor ‘Ysgol Werdd’ yn atgyfnerthu’r gwaith hwn yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cydweithio gydag elusen er mwyn annog eu cyfoedion i deithio i’r ysgol mewn ffordd sy’n datblygu eu hymwybyddiaeth o’r amgylchedd. Maent hefyd wedi cael profiadau buddiol ar sut i warchod bywyd gwyllt trwy gydweithio â gwarchodfa natur leol. O ganlyniad i’r ystod o brofiadau gwerthfawr mae’r disgyblion yn eu cael, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu sy’n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni’n dda ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm ac maent yn darparu tasgau a heriau diddorol sy’n cymell diddordeb a brwdfrydedd rhan fwyaf y disgyblion. Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r staff yn meithrin annibyniaeth yn y disgyblion, ac yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynnar. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae cyflwyniadau bywiog yr athrawon yn ysgogi’r disgyblion yn dda. Mae amseriad y gwersi hyn yn dda ac yn annog y disgyblion i gyfrannu’n effeithiol at drafodaethau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae rhan fwyaf y staff yn modelu iaith safonol yn effeithiol. Maent yn holi’n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a’r disgyblion.

Mae athrawon yn gwneud defnydd cadarn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig adborth

addas iddynt, gan nodi beth y maent wedi ei gyflawni’n dda a’r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i weithredu ar yr adborth hwn trwy gywiro darnau o’u gwaith yn y dosbarth. Maent yn cael cyfleoedd priodol i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o’r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr a defnyddiol ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion yn gywir. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o ddata i olrhain cynnydd y disgyblion ac i ddadansoddi canlyniadau phrofion cenedlaethol er mwyn darparu cefnogaeth briodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Maent yn ysgrifennu adroddiadau pwrpasol sy’n dadansoddi cyflawniad disgyblion yn effeithiol ac yn amlinellu’r camau nesaf ar gyfer codi safonau’n llwyddiannus.

Mae rhieni’n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant, gan gynnwys adroddiadau blynyddol cynhwysfawr sy’n cynnwys targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol a moesol yn llwyddiannus. Mae’r pwyslais amlwg y mae’r ysgol yn ei roi ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn creu ethos cadarnhaol iawn. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau gwrth-fwlio ar draws yr ysgol sy’n cefnogi lles bron pob disgybl yn effeithiol iawn. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol disgyblion, er enghraifft drwy wasanaethau dosbarth a chyd-addoli, yn gadarn iawn. Trwy wahodd ymwelwyr o wledydd tramor i’r ysgol yn rheolaidd, mae’r staff yn llwyddo i atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a diwylliannau eraill yn effeithiol.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithlon ag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel y seicolegydd addysg a nyrs yr ysgol. Mae’r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion, staff a rhieni. Mae’r cyfle rheolaidd a gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r amrywiaeth o weithgareddau mewnol ac allgyrsiol yn hyrwyddo’r elfen hon yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau antur awyr agored gwerthfawr gan gynnwys hwylio, dringo, canŵio a cherdded i gopa’r Wyddfa.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac i addasu’r ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae gan yr ysgol gynlluniau effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth. Mae’r targedau’n finiog ac yn cael eu monitro a’u haddasu’n rheolaidd. Trwy gydweithio effeithiol gyda disgyblion a rhieni yn y broses hon, mae’r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol, cefnogol a chyfeillgar yn bodoli yn Ysgol Llanllechid, lle y mae disgyblion yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn ei holl weithgareddau. Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd dangos parch a chwrteisi at bawb, sy'n arwain at amgylchedd diogel sy'n meithrin gofal at eraill a goddefgarwch ohonynt.

Mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'i hamgylchedd ffisegol. Mae'r ardal allanol wedi ei datblygu'n llwyddiannus i gefnogi profiadau dysgu disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Ceir digon o adnoddau o ansawdd da i fodloni gofynion y cwricwlwm yn briodol. Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar yn dathlu llwyddiannau a gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol y mae'n ei rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol iawn ac yn meithrin medrau arweinyddiaeth yr uwch dîm rheoli yn llwyddiannus. Mae gan arweinwyr rôl allweddol mewn hybu cydweithio a rhannu arfer dda yn barhaus o fewn yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, mae'n arwain ar ddatblygiad cwricwlwm creadigol ymysg ysgolion eraill ac yn cynnig arweiniad ar hunanarfarnu ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r rhain yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar godi safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae pob aelod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n arbennig o effeithiol. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. O dan arweiniad y pennaeth a'r uwch dîm rheoli, mae'r staff yn barod iawn i rannu arbenigeddau ymysg ei gilydd yn ogystal â gydag athrawon ysgolion eraill. Mae hon yn arfer sy'n hyrwyddo arferion addysgu a dysgu da yn effeithiol iawn.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus, er enghraifft, gwella safonau darllen a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cael effaith arwyddocaol ar safonau a phrofiadau disgyblion, er enghraifft trwy weithredu'r Siarter Iaith yn llwyddiannus.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dreiddgar o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae trefn eu cyfarfodydd ar ffurf gweithdai a theithiau o gwmpas yr ysgol yn hyrwyddo'u dealltwriaeth yn dda iawn. O ganlyniad,

maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn fwriadus am safon y ddarpariaeth a safonau. Mae llywodraethwyr yn defnyddio'u gwybodaeth yn arbennig o effeithiol i sicrhau cyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol yn ogystal â chyfrannu'n fwy pwrpasol at y broses o lunio adroddiad hunanarfarnu a chreu cynllun datblygu ysgol effeithiol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus yn bodoli, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar ddeilliannau disgyblion. Mae wedi gwreiddio'n dda ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae'n broses effeithiol iawn sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus. Mae systemau cadarn iawn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer gwelliant a chymryd camau effeithiol i'w cywiro. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn drylwyr ac yn ymwybodol o'r meysydd sydd angen eu gwella.

Nodwedd ragorol yw'r modd y mae'r drefn hunanarfarnu yn treiddio i'r holl rhanddeiliaid, gan sicrhau arfarniadau cyson gan athrawon, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a'r gymuned leol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon i'r broses hon trwy arfarnu gwersi, meysydd cwricwlaidd a chreu polisïau.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn bwrpasol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae cysylltiad cryf yn yr ysgol rhwng yr effaith a gaiff yr arweinyddiaeth ar wella safonau a'r ddarpariaeth, ac yn treiddio drwy brosesau hunanarfarnu'n fedrus.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o ddeiliannau'r broses hunanarfarnu. Mae'n ddogfen o safon uchel sy'n manylu'n gynhwysfawr ar flaenoriaethau priodol. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae gallu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant mewn safonau a darpariaeth yn rhagorol. Er enghraifft, gwelir gwelliannau amlwg yng nghyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau strategol sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac sy'n cael effaith arwyddocaol ar eu deilliannau a safonau. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cefnogi'r holl weithgareddau'n frwd. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau a phartneriaethau cadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau rheolaidd â'r gymuned a'r defnydd o unigolion lleol yn gwneud cyfraniad pwysig i brofiadau'r disgyblion. Mae hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol.

Mae perthynas lwyddiannus yn bodoli gyda'r mudiad cyn-ysgol sydd wedi ei leoli ar dir yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus ar gyfer disgyblion.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gyda nifer o ysgolion cyfagos i rannu arfer dda. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae'r cysylltiadau cadarn, gweithredol sy'n bodoli gydag ysgolion yn Tsieina, India a Jamaica yn ehangu profiadau, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth disgyblion o fod yn perthyn i gymuned ehangach yn llwyddiannus iawn. Maent hefyd yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'r brifysgol leol er mwyn datblygu rhaglen lles ar draws yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol wedi targedu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn synhwyrol i ariannu cymorthyddion dysgu i gefnogi grwpiau ac unigolion. Mae hyn cael effaith gadarnhaol ar fedrau a safonau darllen a lles disgyblion.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, i weithio ar y cyd ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth effeithiol iawn i athrawon, yn modelu iaith yn raenus ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Mae'r rhain wedi cael effaith llwyddiannus ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gadarn. Mae rhwydweithiau effeithiol yn bodoli gydag ysgolion eraill sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i athrawon a chymorthyddion ddatblygu'n broffesiynol a chydweithio'n llwyddiannus i wella safonau gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612069 - Ysgol Llanllechid**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 253 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 24 | 41 | 32 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 54.2 | 90.2 | 84.4 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 41 | 31 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 62.5 | 92.7 | 87.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 65.9 | 80.6 | 63.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 41 | 32 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 92.7 | 90.6 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 46.3 | 59.4 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 41 | 32 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 97.6 | 84.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 87.8 | 84.4 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612069 - Ysgol Llanllechid**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 253 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 33 | 28 | 25 | 22 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 84.8 | 96.4 | 92.0 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.8 | 92.9 | 96.0 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.4 | 25.0 | 44.0 | 59.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.8 | 96.4 | 96.0 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.3 | 21.4 | 36.0 | 59.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.8 | 96.4 | 96.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 24.2 | 17.9 | 40.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.8 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 28.6 | 40.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 120 | 119 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 120 | 119 | 1 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 120 | 118 | 2 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 120 | 120 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 120 | 120 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 120 | 120 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 120 | 120 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 120 | 120 | 0 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 120 | 117 | 3 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 120 | 120 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 119 | 115 | 4 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 120 | 117 | 3 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 68 | 57 | 11 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 68 | 60 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 68 | 60 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 67 | 57 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 65 | 46 | 19 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 68 | 55 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 68 | 54 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 62 | 40 | 21 | 1 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 65% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 66 | 52 | 12 | 1 | 1 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 79% | 18% | 2% | 2% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 68 | 56 | 11 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 82% | 16% | 1% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 68 | 59 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 61 | 45 | 15 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 74% | 25% | 2% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 68 | 50 | 17 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 68 | 57 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 84% | 15% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 64 | 46 | 15 | 2 | 1 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 72% | 23% | 3% | 2% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 66 | 47 | 18 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 71% | 27% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 54 | 43 | 10 | 1 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 80% | 19% | 2% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 68 | 59 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 68 | 58 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Wyn Davies | Arolygydd Lleyg |
| Catherine Ann Deschoolmeester | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwenan Davies-Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.